Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Commissioner for Public Appointments

# Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

## Rôl: Is-gadeirydd

Dyddiad Cau: Dydd Llun 23 Ionawr 2023






# Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Diolch ichi am fynegi diddordeb yn rôl Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am y Bwrdd yn ogystal â manylion am rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r broses ddethol.**

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac fe gafodd statws Prifysgol ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod y system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethiant cadarn, i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol y De.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 12,276 o staff cyfwerth ag amser cyflawn, sy'n gyfystyr â 13,306 o staff, a dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Mae ein gweithlu'n heneiddio, ac felly hefyd broffil demograffig ein poblogaeth, ac mae anghydraddoldebau iechyd ein poblogaeth i’w gweld hefyd o fewn ein gweithlu. Mae 80 y cant o'n staff yn byw yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd a lles staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o'n cynlluniau ataliol.



Mae’r Bwrdd Iechyd yn cael cyllideb o ychydig dan £1.6 biliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, i’w defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Gwent. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a lles yn yr ardal, yn arbennig drwy ein trefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Agorodd Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân ym mis Tachwedd 2020 ac mae'n darparu gofal critigol ac arbenigol i drigolion Gwent a De Powys. Mae tri uwch Ysbyty Cyffredinol Lleol yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau cleifion mewnol a chleifion allanol; sef Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd; Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Ceir hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill sydd wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd.

## Rôl yr Is-gadeirydd

Mae ein Bwrdd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant y sefydliad. Mae'n dwyn y sefydliad i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch, perfformiad, gwerth am arian a datblygu strategol a gweithredu.

Maen'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i'r sefydliad, y staff a'r cyhoedd yn cael eu rheoli'n effeithiol. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol ac yn cynnwys Aelodau Gweithredol ac Annibynnol (Yr Athro Helen Sweetland, Paul Deneen, Philip Robson, Shelley Bosson, Louise Wright, Katija Dew, Richard Clark, Pippa Britton, Dafydd Vaughan, Iwan Jones),( a elwir mewn rhai sefydliadau yn Gyfarwyddwyr Anweithredol), mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad y sefydliad.

Mae gan yr Is-gadeirydd brîff a chyfrifoldeb penodol am oruchwylio perfformiad y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gofal sylfaenol, iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl gan sicrhau cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd yr is-gadeirydd yn cefnogi Cadeirydd y Bwrdd Iechyd o ran perfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, gan gynnal gwerthoedd y GIG, ac ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid. Bydd yr Is-gadeirydd yn cryfhau gallu aelodaeth annibynnol y Bwrdd ymhellach ac yn yn gweithredu fel rhywun y gall y Cadeirydd ymgynghori ag ef.

### GAN GEFNOGI'R CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR BYDD YR IS-GADEIRYDD YN:

**Strategaeth**

- Cyfrannu at drafodaeth adeiladol ynghylch datblygu strategol a materion perthnasol a sylweddol eraill sy'n wynebu'r sefydliad;
- Darparu barn a chyngor annibynnol ar faterion ansawdd, strategaeth, gweledigaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad;
- Cynnig her adeiladol i'r Weithrediaeth, gan ddylanwadau arnynt a gweithio gyda hwy i ddatblygu cynigon ar strategaethau o'r fath;
- Ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, rhoi arweiniad o fewn fframwaith o reolaethau darbodus ac effeithiol, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad;

**Cynllunio**

- Craffu ar gynllun tymor canolig tair blynedd (neu flynyddol) y sefydliad, gan sicrhau ei fod yn sefydlu amcanion clir i gyflawni'r strategaeth; bod ganddo'r elfennau angenrheidiol o ran ansawdd, gweithlu, adnoddau gweithredol ac adnoddau ariannol i'w alluogi i gyflawni ei amcanion ac adolygu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y cynllun.

**Perfformiad**

- Derbyn, adolygu a chymhwyso craffu priodol ar ddiogelwch, ansawdd, perfformiad, gweithlu a data ariannol a
gwybodaeth i gymharu cyflawniadau yn erbyn targedau a, lle bo angen, helpu i weithredu camau adferol;
- Chwilio am amcanion heriol ar gyfer gwella perfformiad;
- Sicrhau bod trefniadau rheolaeth effeithiol ar waith a, lle bo hynny'n berthnasol, trefniadau comisiynu i sicrhau hyfywedd ariannol y sefydliad

## Rôl yr Is-gadeirydd - parhad

**Diwylliant ac Ymddygiad**

• Dangos Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth;
• Darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol, a gweladwy yn fewnol drwy Fwrdd a Phwyllgorau, ac yn allanol drwy gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid, ac ar gyfer Byrddau Iechyd (a sefydliadau eraill fel y bo'n briodol) yn benodol, ar draws gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.
• Cefnogi diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd a'r cyhoedd i godi pryderon sydd wedyn yn cael sylw priodol;
• Cofleidio a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer poblogaeth, cleifion, staff a rhanddeiliaid y sefydliad;
• Dangos ac annog y safonau uchaf o dreiddgarwch, uniondeb a llywodraethiant, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y sefydliad yn cydymffurfio ag arferion gorau ac arfer statudol;
• Darparu arweinyddiaeth weladawy a chydymdeimladol drwy gefnogi a hybu diwylliant iach i'r sefydliad ac adlewyrchu hyn, a gwerthoedd y sefydliad, yn eu hymddygiad eu hunain;
• Cofleidio a hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithrwydd a diwylliant y Gymraeg ym mhob gweithgaredd sefydliadol.

**Ymgysylltu**

• Bydd disgwyl i ddeiliad y rôl, gyda chymorth, ddeall busnes y sefydliad drwy ymwneud gweithredol;
• Adeiladu a chynnal cysylltiadau partneriaeth cryf rhwng partneriaid y sefydliad a grwpiau rhanddeiliaid i hyrwyddo gweithrediad effeithiol gweithgareddau'r sefydliad;
• Cymryd rhan fel aelod o Rwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan;

**Llywodraethiant**

• Dirprwyo i'r Cadeirydd ac arwain y Bwrdd yn ei absenoldeb a chyflawni swyddogaethau ychwanegol fel y cytunir arnynt gyda'r Cadeirydd;
• Craffu ar ymrwymiad y sefydliad i'r safonau llywodraethiant uchaf, fel ei fod yn gweithredu er budd y boblogaeth a'r partneriaid y mae'n eu gwasanaethu ac yn cael ei weld yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir a'r adnoddau a ddefnyddir;
• Ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol a systemau rheoli risg yn gadarn ac wedi'u llywodraethu'n dda;
• Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd, gan ofyn am eglurhad, sicrwydd pellach a threiddgarwch gwybodaeth, lle bynnag y bo modd;
• Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog, polisïau a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol;



**Gweithgareddau'r Bwrdd**

- Cymryd rhan yn llawn yng ngwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau, gan gynnwys ymgysylltu cyn ac ar ôl cyfarfodydd a chynnal gwerthusiadau blynyddol i gefnogi llywodraethiant da;
- Mynychu, a lle bo hynny'n berthnasol, cadeirio pwyllgorau a chyfarfodydd ad hoc eraill y Bwrdd;
- Mynychu sesiynau datblygu'r Bwrdd a chyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol eraill;
- Ar y cyd ag Aelodau eraill y Bwrdd a lle bo hynny'n berthnasol, cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gronfa Elusennol, y mae'r Bwrdd yn gweithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol iddi;
- Ysgwyddo a hybu rôl hyrwyddwr mewn meysydd ffocws sydd naill ai wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru neu wedi'u neilltuo gan y sefydliad;
- Cael gwerthusiad perfformiad personol blynyddol, gan gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad ychwanegol a amlygwyd o ganlyniad i'r broses werthuso er mwyn sicrhau bod amcanion personol yn cael eu cyflawni.










# Manyleb y Person

**Meini Prawf Hanfodol:**
**Gwerthoedd**
• Ymrwymiad i gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd y sefydliad
• Ymrwymiad i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff a'n rhanddeiliaid.

**Sgiliau**
• Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt
• Profiad o ddarparu her a chraffu annibynnol tra'n cynnal perthnasoedd adeiladol
• Gallu amlwg i weithio ar y cyd ac fel rhan o dîm i gyrraedd nodau cyffredin
• Y gallu i gymhwyso mewnwelediad strategol a/neu brofiad bywyd er lles y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff a'n rhanddeiliaid

**Y Meini Prawf sy'n Ddymunol:**
**Sgiliau**
• **Sgiliau cyfathrebu a/neu siarad cyhoeddus rhagorol**

Bydd ymgeiswyr ar gyfer y rôl yn dangos ymrwymiad i gadw at Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Rydym am i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod yn lle pleserus a boddhaus i weithio ynddo. Rydym yn gwybod bod teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar staff a chleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn disgwyl safon uchel o ymddygiad sy'n trin cleifion, eu teuluoedd, y cyhoedd a chydweithwyr gydag urddas a pharch bob amser.

Disgwylir i'r holl staff gyflawni eu rolau gydag ymroddiad ac ymrwymiad i'r GIG a'i werthoedd craidd.

Ein gwerthoedd allweddol yw:
• Pobl yn gyntaf
• Cyfrifoldeb personol
• Angerdd am wella
• Balchder yn yr hyn a wnawn

**Y Gymraeg**
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol ar gyfer y penodiad hwn. Er hynny, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Pan fo ymgeisydd yn dymuno dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf dymunol dylent roi syniad o'u sgiliau yn erbyn y lefel ganlynol o sgil:

Deall: Lefel 3 = Gallu deall sgyrsiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith

Darllen: Lefel 1 = Gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth

Siarad: Lefel 3 = Gallu cyfrannu at rai sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith

Ysgrifennu: Lefel 1 = Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

## Manyleb y Person parhad

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

## Ffeithiau allweddol am y swydd

**Lleoliad:**
Mae pencadlys y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Sant Cadog, Caerllion, lle cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Disgwylir i aelodau'r Bwrdd fynychu digwyddiadau a gweithgareddau ledled ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gweithio hybrid ac ystwyth lle bo hynny'n briodol.

**Ymrwymiad Amser:**
Mae swydd Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

**Hyd y penodiad:**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Is-gadeirydd yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn.
Gall aelodau'r bwrdd sefyll am uchafswm o wyth (8) mlynedd a dim mwy na dau dymor.

Taliadau: £56,316 y flwyddyn yn ogystal â chostau theithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.



**Adolygu Datblygiad Personol a Pherfformiad**
Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cyfraniad y rhai a benodir i swyddi cyhoeddus ac mae'n dymuno sicrhau, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, fod modd i ddeiliaid y rolau fanteisio ar ystod o gyfleoedd datblygu personol. Wrth benodi bydd cynllun datblygu personol ac amcanion yn cael eu cytuno gyda'r Cadeirydd.

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu rhaglen gynefino. Mae  Academi Wales yn darparu amrywiaeth o raglenni datblygu arweinyddiaeth ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a thrafodir y cyfleoedd i fanteisio ar y rhaglenni hyn ac eraill pan benodir yr ymgeisydd llwyddiannus.

## Gwneud Cais

I wneud cais ewch i wefan penodiad cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chlicio ar 'gwneud cais ar y gornel chwith isaf. Os mai dyma'r tro cyntaf i chi wneud cais am benodiad cyhoeddus yng Nghymru bydd angen ichi gofrestru gyda system geisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi wneud hyn, a byddwch yn gallu gwirio statws eich cais ar unrhyw adeg.

I wneud cais, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein ac uwchlwytho dwy ddogfen ategol:

- CV llawn
- Datganiad personol sy'n rhoi manylion eich profiad, sut rydych yn bodloni'r disgrifiad rôl a manyleb y person, a pha gyfraniad y gallech ei wneud i rôl yr Is-Gadeirydd.

Dylid lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran 'atodi dogfen(au) ategol' yn y ffurflen gais ar-lein. Gall methu â gwneud hynny arwain at ddiystyru eich cais.

Os oes angen addasiadau arnoch er mwyn eich galluogi i wneud cais, neu os oes angen unrhyw gymorth neu arweiniad arnoch, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

**Curriculum Vitae**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Ni ddylai'ch CV fod yn hirach na 3 tudalen.

**Datganiad Personol**

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym Manyleb y Person yn y pecyn hwn.

Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf isod. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio beth oedd eich rôl, a sut yr aethoch ati i sicrhau canlyniad penodol. Mae croeso i chi ddefnyddio enghreifftiau o’ch profiad proffesiynol yn ogystal â’ch profiad bywyd.

Mater i chi yw sut rydych yn cyflwyno’r wybodaeth, ond bydd angen i'r panel cynghori ar benodiadau allu asesu sut mae'r enghreifftiau a ddarperir yn ymwneud â'r meini prawf, felly rydym yn eich annog i osgoi defnyddio datganiadau sy'n cyfeirio at y meini prawf yn unig heb roi enghreifftiau.

Byddwch cystal â chyfyngu'ch datganiad personol i 1000 o eiriau.

Mae’n bosibl y bydd eich cais yn cael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i’r gofynion o ran hyd eich CV neu’ch datganiad personol.

**Geirda**

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Er mwyn cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

## Y Broses Ddethol

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn penodi'r Is-gadeirydd.

Caiff y penodiad ei wneud yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cymorth i benderfynu gan Banel Asesu Cynghorol ('y panel'). Bydd y panel yn cynnwys Ann Lloyd, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Jan Williams, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Charles Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Geraldine Buckley, Llywodraeth Cymru. Wrth gynnal eu hasesiad o'r ymgeiswyr, rôl y Panel yw penderfynu'n wrthrychol pwy sy'n bodloni'r meini prawf dethol a gyhoeddwyd ar gyfer y rôl - mewn geiriau eraill, pwy sy'n gymwys i'w penodi. Cadeirydd y panel fydd Ann Lloyd, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos orau eu bod yn bodloni meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Byddant yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol yn unig i farnu a yw'r sgiliau a'r profiad gofynnol gennych.

Os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni isafswm y meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, fe'ch gwahoddir i gyfweliad. Bydd sesiwn gyda rhanddeiliaid yn cael ei chynnal ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'i randdeiliaid. Gofynnir i'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y sesiwn, ar bwnc perthnasol ac allweddol y cytunir arno yn nes at yr amser. Ein bwriad yw y bydd y sesiwn rhanddeiliaid a'r cyfweliadau yn digwydd yn rhithwir.

Yn y cyfweliad bydd gofyn i ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ar bwnc a fydd yn cael ei ddarparu'n agosach at ddyddiad y cyfweliad.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad.

**Amserlen**
Dyddiad cau'r hysbyseb: 23 Ionawr 2023
Sifft: 1 Chwefror 2023
Cyfweliadau: 27 Mawrth 2023
Dechrau'r penodiad: TBC



# Y Broses Ddethol

**Datganiad am Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu’r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol.

**Hyderus o ran Anabledd**
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Ystyr hyn yw bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweliad wedi’i warantu, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â’r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Cymhwysedd**
Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 2 o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 a'r model Rheolau Sefydlog i Fyrddau Iechyd Lleol yn manylu ar y sail y gellir gwahardd person rhag cael ei benodi'n Is-gadeirydd. Mae manylion pellach ar gael yn Atodiad A.

Os oes angen eglurhad pellach ar ymgeiswyr ynghylch y meini prawf cymhwysedd uchod dylent gysylltu â: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru gan ddarparu’r cwestiwn yr hoffent gael ateb iddo.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodaeth o'r Bwrdd Iechyd yn anghymhwyso unigolyn rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Anghymhwyso Senedd Cymru 2020.

Fel arfer ni fydd unigolyn yn gwasanaethu ar Fwrdd mwy nag un o gyrff y GIG yng Nghymru ar yr un pryd fel aelod sy’n swyddog anweithredol.

# Y Broses Ddethol

**Gwrthdaro Buddiannau**
Wrth wneud cais gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro, neu y gellid tybio eu bod yn gwrthdaro, â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fuddiannau a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn y Bwrdd Iechyd. Gofynnir i chi hefyd ddatgan unrhyw rolau neu weithgaredd gwleidyddol.

Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Diwydrwydd Dyladwy**
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad gellir archwilio unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy ymhellach mewn cyfweliad.

**Gwneud penodiad**
Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd. Bydd hwn yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae’n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

**Enwau Cyswllt**
I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Rani Mallison, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, Rani.Mallison2@wales.nhs.uk

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

**Ymholiadau**
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

**Os nad ydych yn hollol fodlon**
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.

# Cymhwysedd – Byrddau Iechyd Atodiad A

Bydd unigolyn anghymwys i'w benodi:

a. os y'i cafwyd yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;
b. os yw'n destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu sydd wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr
c. os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
d. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
e. os yw, neu os yw wedi bod yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn gyflogedig gan Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd yng Nghymru.

**Sylwer: yn ogystal â'r uchod dylid nodi hefyd na fydd unigolyn fel arfer yn gwasanaethu ar Fwrdd mwy nag un o gyrff y GIG yng Nghymru fel aelod sy'n swyddog anweithredol.**





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Aneurin Bevan University Health Board

# bipab.gig.cymru







